**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2022 (10:30 – 14:40)**

**Y Llwyfan, Caerfyrddin a Microsoft Teams**

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwyr:** | Llinos Roberts (Cadeirydd)<br>Ann Beynon<br>William Callaway<br>Nia Elias<br>Rhys Evans<br>Meri Huws (Is Gadeirydd)<br>Yr Athro Anwen Jones<br>Pedr ap Llwyd<br>Angharad Roberts<br>Yr Athro Enlli Thomas |
| **Sylwedydd:** | Alan Jones, Llywodraeth Cymru |
| **Hefyd:** | Rhian Huws Williams, Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Cadeirydd) |
| **Swyddogion:** | Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)<br>Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)<br>Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)<br>Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)<br>Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu) |
| **Ymddiheuriadau:** | Gwilym Dyfri Jones, Meg Hughes (HEFCW) |

## Cofnodion Cyfarfod 6 Gorffennaf 2022

### 1. Eitem 1 – Croeso, ymddiheuriadau a materion rhagarweiniol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

### 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Nid oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol nad oedd eisoes wedi'u nodi ar y Gofrestr Buddiannau. | | |

### 3. Eitem 3 – Cofnodion 23 Mawrth 2022

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2022. | | |

## 4. Eitem 4 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | **Eitem 9.2 – Cyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig**<br>Adroddwyd bod y Cyngor Cyllido (HEFCW) wedi cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad ar gyhoeddiadau Cymraeg a Chymreig ac fe'i drafodir yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi ar 12 Gorffennaf. Mae'r argymhellion yn cynnwys rôl i'r Coleg yn y broses o bennu dyraniadau. | | |

## 5. Eitem 5 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar weithgareddau diweddar. | | |
| 5.2 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd bod y Cyngor Cyllido yn cynnal astudiaeth ar gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o adolygiad ehangach o drefniadau cyllido. Mae hyn yn ail adrodd ymarferiad a gynhaliwyd yn 2006 ac mae'r un cwmni, *London Economics*, wedi eu penodi i gynnal y gwaith. Mae posibilrwydd felly y bydd ffrwd gyllido newydd ar ffurf premiwm ar gyfer addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn dod i rym yn 2023/24.<br>Atgoffwyd yr aelodau y rhagdybiodd yr Athro Robin Williams yn ei adroddiad yn 2008 y byddai cyllido'r Coleg yn ychwanegol i'r premiwm a ddyrennid i'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sefydliadau ar y pryd ond daeth y premiwm i ben yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.<br>Mewn ymateb i gwestiwn, esboniwyd rhai o'r materion sydd o dan ystyriaeth yn yr ymarferiad, gan gynnwys y ffaith bod trefniadau cyllido adrannol yn aml yn rhagdybio niferoedd mawr o fyfyrwyr yn cael eu dysgu mewn grwpiau torfol.<br>Nodwyd yn ogystal bod rhai pynciau yn costio mwy i'w cynnal nac eraill ac y gellir ystyried nifer o opsiynau gwahanol i ymateb i hynny.<br>Nodwyd y byddai'n allweddol sicrhau cydberthynas a chydgordiant rhwng unrhyw drefniadau premiwm newydd a ffrydiau cyllido'r Coleg. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymunodd yr Athro Enlli Thomas | | |
| 5.3 | **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**<br>Adroddwyd ar yr heriau o benodi staff yn sgil dyrannu grantiau datblygu.<br>Adroddwyd hefyd ar adolygiad Llywodraeth Cymru ar gymwysterau galwedigaethol ac yn arbennig ar y rhai na fydd ar gael yng Nghymru yn sgil newidiadau yn Lloegr. Mae'r Coleg wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o grŵp llywio'r prosiect.<br>Adroddwyd ar y cydweithio â CholegauCymru i adnabod blaenoriaethau er mwyn cefnogi darpariaeth.<br>Mewn ymateb i gwestiwn penodol am brentisiaethau, adroddwyd mai megis dechrau buddsoddi yn sylweddol yn y sector hwnnw y mae'r Coleg ar hyn o bryd ac y bydd modd cyflwyno adroddiad llawnach at sylw'r Bwrdd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | maes o law, gan gynnwys unrhyw heriau sydd yn ymddangos.<br>Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ymadawiad Iestyn Davies o'i swydd fel Prif Weithredwr ColegauCymru, gan gydnabod ei gydweithrediad a'i gefnogaeth i sefydlu rôl y Coleg yn y sector addysg bellach. | | |
| 5.4 | **Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**<br>Adroddwyd bydd y Ganolfan yn cyd-gynllunio gyda'r Coleg ar ystod eang o gynlluniau yn y sectorau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau, er mwyn sicrhau fod gwaith y ddau sefydliad yn cyfrannu at un strategaeth gydlynus sydd yn gyson ag agenda Cymraeg 2050. | | |
| 5.5 | **Deng-mlwyddiant y Coleg**<br>Adroddwyd ar y noson wobrau i'w gynnal ar 13 Gorffennaf yn fyw ac ar-lein o Gaerfyrddin.<br>Bydd rhaglen lawn o weithgareddau yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan gynnwys darlith a draddodir gan yr Athro Geraint Jenkins. | | |
| 5.6 | **Trefniadau gweithio a llesiant**<br>Adroddwyd ar y trefniant lle mae pob aelod o staff llawn amser yn treulio o leiaf deuddydd yr wythnos yn y swyddfa.<br>Adroddwyd ar y datblygiad i sefydlu swyddfa parhaol yn Aberystwyth gan fod cynnydd yn y nifer o aelodau staff. | | |

## 6. Eitem 6 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 6 Mai 2022. | | |
| 6.2 | **Penodi Cadeirydd newydd - Eitem 16**<br>Cadarnhawyd penodiad Dr Aled Eirug yn ffurfiol fel Cadeirydd y Bwrdd am bedair blynedd o 1 Medi 2022 tan 31 Awst 2026, yn dilyn gohebiaeth 23 Mehefin 2022.<br>Rhyddhawyd datganiad i'r wasg yn ystod y cyfarfod yn cyhoeddi'r newyddion. | | |
| 6.3 | **Dogfen Llywodraethiant a Chod Ymarfer diwygiedig ar gyfer y Cyfarwyddwyr - Eitem 6ii**<br>Cyflwynwyd Dogfen Llywodraethiant a Chod Ymarfer ar gyfer y Cyfarwyddwyr gan yr Ysgrifennydd.<br>Eglurwyd yn sgil diwygiadau a gymeradwywyd gan y Llys a'r Bwrdd i'r Erthyglau Cymdeithasu ym mis Mawrth 2022 bod y ddogfen yn adlewyrchu'r newidiadau o ran tymor gwasanaeth a'r drefn newydd ar gyfer gwerthuso ac ail-benodi Cadeirydd. Cafwyd nifer o argymhellion i gryfhau rhai cymalau gan Fflur Jones, Darwin Gray, cyfreithwyr y Coleg.<br>Trafodwyd<br>• rôl y Cadeirydd<br>• fframwaith llywodraethiant | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • bod y ddogfen yn adlewyrchu arfer da o fewn y sector cyhoeddus<br>• yr angen i amlygu amrywiaeth a chynhwysiant yn y ddogfen<br>• nodi polisi Llywodraeth Cymru yn y ddogfen<br>Yn dilyn y drafodaeth derbyniwyd y ddogfen gan nodi'r argymhellion i'w trafod gyda'r pwyllgor yn ystod y cylch adolygu nesaf. | Argymhellion at y Pwyllgor Penodiadau wrth adolygu nesaf | Tymor y gwanwyn 2023 |
| 6.4 | **Gweithdrefnau Penodi diwygiedig - Eitem 6iii**<br>Cyflwynwyd gweithdrefnau penodi i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'i bwyllgorau gan yr Ysgrifennydd.<br>Trafodwyd<br>• sgiliau'r Bwrdd<br>• cydraddoldeb | Argymhellion i'r Pwyllgor wrth adolygu nesaf | Tymor yr hydref 2022 |
| 6.5 | **Adroddiad blynyddol – Eitem 6iv**<br>Cyflwynwyd adroddiad blynyddol gan Rhian Huws Williams, Cadeirydd y pwyllgor.<br>Adroddodd mai prif waith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn oedd:<br>• Penodi cyfarwyddwyr a chadeirydd i'r Bwrdd<br>• Mireinio a diweddaru'r gweithdrefnau penodi<br>• Darparu rhaglen gynefino a hyfforddiant i aelodau<br>Argymhellwyd bod cyfleoedd parhaus yn cael eu cynnig i aelodau ddatblygu'n broffesiynol.<br>Derbyniwyd yr adroddiad. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Rhian Huws Williams | | |

## 7. Eitem 7 - Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 25 Mai 2022, gan William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor:<br>• bod nifer o'r aelodau wedi datgan cysylltiad â'r Archwilwyr Mewnol, TIAA, a bod modd gwirio annibyniaeth barn gyda'r aelod heb y cysylltiad hynny<br>• bod y pwyllgor wedi holi am 'sicrwydd rhesymol' TIAA ar archwiliadau'r flwyddyn ac wedi derbyn adborth mai dyna'r farn orau a ellir ei gyflawni<br>• bod camau ar waith i benodi aelod allanol i'r pwyllgor ar ddiwedd tymor Gareth Eyres | | |
| 7.2 | **Adroddiad blynyddol**<br>Derbyniwyd adroddiad blynyddol y pwyllgor. | | |

## 8. Eitem 8 – Y Gofrestr Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Risgiau Strategol**<br>Cyflwynwyd y gofrestr risg strategol gan y Cofrestrydd.<br>Nodwyd yr heriau presennol a thrafodwyd<br>• y posibilrwydd o dderbyn cyllid ychwanegol i wireddu agweddau ar y gwaith<br>• na fyddai chwyddiant uchel yn effeithio ar y Coleg gan mai dyrannu grantiau yw prif lif cyllid y Coleg<br>• nad oedd yr un risgiau wedi'u nodi ar gyfer addysg bellach ag addysg uwch ond y gellid egluro hynny wrth i gyfnod sefydlu symud i gyfnod sefydlogi<br>• bod aelodau'r Bwrdd yn cydnabod bod pwysau cynyddol ar yr Uwch Dîm Reoli wrth i waith y Coleg ehangu i gynnwys mwy o gyfrifoldebau ym meysydd Addysg Bellach ac Addysg Gychwynnol Athrawon<br>• nodwyd bod cyfweliadau ar gyfer rôl newydd Rheolwr Cyllid ymhen wythnos<br>• yr angen am ddogfen yn diffinio'r cyfrifoldebau a ddirprwyir gan y Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion<br>• Eglurwyd bod data trosiant staff yn cael ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | Drafftio dogfen i'r pwrpas hwn | Medi 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.2 | **Risgiau Gweithredol**<br>Derbyniwyd cofrestr risg gweithredol a berchnogir gan reolwyr y Coleg, er gwybodaeth. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd William Callaway a'r cyfieithwyr ar y pryd. | | |

## 9. Eitem 9 - Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2022. | | |
| 9.2 | **Buddsoddiadau**<br>Cyflwynodd Pedr ap Llwyd, cadeirydd y pwyllgor, argymhelliad y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo cronfeydd tymor canolig i gronfeydd tymor hir y Coleg.<br>Adroddwyd bod adroddiad monitro Sterling Asset Management ar fuddsoddiadau'r Coleg drwy gwmni Sarasin yn argymell ystyried asesu rhaniad y cronfeydd yn ddibynnol ar rwymedigaethau'r Coleg.<br>Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd yr argymhelliad i gyflwyno papur yn amlinellu'r opsiynau i'r pwyllgor nesaf. | Papur opsiynau i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion cyffredinol nesaf | 28 Medi 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.3 | **Aelodaeth**<br>Adroddwyd bod camau ar waith i benodi aelodau allanol i’r pwyllgor. | | |
| | Ar y pwynt hwn ymadawodd Alan Jones | | |

## 10. Eitem 10 – Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 11 Mai 2022.<br>Cyflwynwyd crynodeb o’r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 11 Mai 2022, gan yr Ysgrifennydd:<br>Nododd:<br>• y trafodwyd y Cynllun Academaidd newydd<br>• y derbyniwyd diweddariad ar y prosiect deunyddiau dysgu digidol sy’n cyhoeddi adnoddau ar y Porth erbyn hyn | | |

## 11. Eitem 11 – Addysg Uwch

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | **Cynllun Academaidd - Eitem 11i (a) a (b)**<br>Cyflwynwyd papur ar argymhellion i’w hystyried yn dilyn ymgynghoriad ar Gynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg gan yr Ysgrifennydd.<br>Adroddwyd y cytunwyd ar y prif egwyddorion a themâu’r cynllun newydd yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ar | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 11 Mai sydd i'w gweld yn y Crynodeb Gweithredol a ddosbarthwyd.  Bydd y crynodeb yn sail i'r Cynllun Academaidd a gyflwynir i gyfarfod 12 Hydref.<br>Trafodwyd bwysigrwydd ymrwymiad lefel uchel y prifysgolion i wireddu targedau'r cynllun.<br>Eglurwyd nad oedd manylder yn y crynodeb ac y byddai angen hyblygrwydd yn y cynllun newydd yn dibynnu ar y cyd-destun ehangach.<br>Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y Crynodeb Gweithredol fel bod themâu ac egwyddorion creiddiol y Cynllun Academaidd newydd yn llawn weithredol o ddechrau blwyddyn academaidd 2022/23. | | |
| 11.2 | **Addysg Gychwynnol Athrawon – Eitem 11ii**<br>Cyflwynwyd diweddariad ar Addysg Gychwynnol Athrawon gan y Cofrestrydd.<br>Adroddwyd y cyhoeddwyd Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mai sy'n dangos bod bwlch mawr rhwng y nifer o athrawon sy'n cael eu hyfforddi bob blwyddyn a'r nifer sydd eu hangen i ddiwallu'r gweithlu.<br>Nodwyd bod y Coleg wedi eu gwahodd i fod ar y Grŵp llywio yn sgil ymestyn rôl y Coleg yn y maes; a bod angen eglurder buan ar y disgwyliadau a'r cyfrifoldebau. | | |
| 11.3 | Trafodwyd<br>• yr heriau i ddenu i'r proffesiwn<br>• safle'r Gymraeg yn y rhaglen hyfforddi<br>• pwysigrwydd rôl y Coleg yn y broses achredu | | |

### 12. Eitem 12 – Bwrdd Strategol ôl-16

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 30 Mehefin 2022, gan Meri Huws, Cadeirydd y bwrdd:<br>Nododd:<br>• y cafwyd diweddariad ar yr heriau a'r arferion da sy'n ymwneud â staffio yn y colegau<br>• y cafwyd diweddariad ar gynllunio gweithlu dwyieithog a'r pynciau blaenoriaeth<br>• y cafwyd cyflwyniad gan Dr Steve Bell sy'n cynnal adolygiad Addysg Gychwynnol Athrawon ôl-16 ar ran Llywodraeth Cymru<br>• y cyflwynwyd prif amcanion strategaeth farchnata y Coleg yng nghyd-destun addysg bellach a phrentisiaethau<br>• y cyflwynwyd cynllun adnoddau i'w cyllido a'u datblygu ar gyfer y Porth yn 2022/23<br>• y cynhelir digwyddiad ar y cyd rhwng y Coleg a Cymwysterau Cymru yn y Sioe Frenhinol ar 19 Gorffennaf | | |

### 13. Eitem 13 – Addysg Bellach a Phrentisiaethau

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Derbyniwyd diweddariad llafar ar drafodaethau ynghylch darpariaeth chweched dosbarth gan y Cofrestrydd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.2 | Adroddwyd bod darpariaeth chweched dosbarth yn amrywio ledled y wlad; gyda lefel A a chyrsiau galwedigaethol yn cael eu cynnig naill ai yn yr ysgol neu yn y colegau, neu mewn cyfuniad o’r ddau. | | |
| 13.3 | Trafodwyd y goblygiadau yng nghyd-destun gallu’r Coleg i ariannu cyrsiau galwedigaethol ac argymhellwyd llunio datganiad safbwynt i’w rannu gyda’r colegau a phenaethiaid ysgolion uwchradd. | Paratoi datganiad safbwynt | Medi 2022 |
| 13.4 | Adroddwyd ar ddifrifoldeb sefyllfa’r niferoedd sy’n astudio’r Gymraeg fel pwnc a’r bwriad i drafod y mater yn un o gyfarfodydd nesaf y Bwrdd. | Cymraeg fel pwnc ar agenda un o’r cyfarfodydd nesaf | 2022/23 |

## 14. Eitem 14 - Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Adroddwyd bod gwobr arbennig a gyflwynwyd, ar argymhelliad personol y Gweinidog, yn seremoni Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru, wedi ei dyfarnu eleni i Gareth Pierce, a bod Lynwen Pierce wedi derbyn y wobr ar ran y teulu. | | |

## 15. Eitem 15 - Cyfarfodydd nesaf

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Nodwyd dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf:<br>• 23 Tachwedd 2022<br>• 22 Mawrth 2023<br>• 28 Mehefin 2023 | | |

## 16. Eitem 17 – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | Rhoddwyd diweddariad ar sefydlu y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan y Prif Weithredwr. | | |
| 16.2 | Adroddwyd bod nifer o welliannau oedd yn ymateb, yn rhannol o leiaf, i'r pryderon a nodwyd yng nghyngor cyfreithiol Gwion Lewis CF, wedi eu cefnogi gan y Pwyllgor Addysg, Plant a Phobl Ifanc, a'u derbyn gan y Llywodraeth. Nodwyd bod y gwelliannau i'w gweld yn yr atodiad a ddosbarthwyd. | | |
| 16.3 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd y rhoddwyd ymrwymiad y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael eu haddasu i gyfeirio'n benodol at y Coleg / corff statudol maes o law yn dilyn cyflwyno'r Deddf Addysg Gymraeg. | | |
| 16.4 | Adroddwyd ar amserlen sefydlu'r Comisiwn a phwysigrwydd cytuno ar berthynas y Comisiwn a'r Coleg ar ddechrau 2023. | | |

## 17. Eitem 18 – Bil Addysg Gymraeg (caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Rhoddwyd diweddariad ar y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig gan y Prif Weithredwr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17.2 | Adroddwyd bod Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi datgan ar lafar y bwriad o ehangu cyfrifoldebau'r Coleg a gosod hynny ar sail statudol. | | |
| 17.3 | Adroddwyd bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg a'r Coleg wedi trafod cydweithio ar yr ymgynghoriad. | | |
| 17.4 | Yn ystod y drafodaeth nodwyd:<br>• heriau diffyg cyd-lyniant<br>• yr angen am strwythurau cynllunio ar gyfer y dyfodol<br>• adnabod cyfrifoldebau<br>• risgiau gwaith yn gor-gyffwrdd<br>• pwysigrwydd cydweithio | | |
| 17.5 | Argymhellwyd cynnwys y Bil Addysg Gymraeg ar agenda'r cyfarfod nesaf, yn amodol ar unrhyw ddatblygiadau polisi yn y cyfamser. | Eitem agenda ar y Bil Addysg Gymraeg | 23 Tachwedd 2022 |